

## Cysoni Polisiâu Coleg Cambria a Popeth Cymraeg

- Mae Coleg Cambria yn gorff AB sydd â chyfrifoldebau ar draws sector eang iawn. Mae darpariaeth Popeth Cymraeg, ar y llaw arall, yn gyfyngedig i faes dysgu Cymraeg yn y gymuned yn unig. Gan fod Coleg Cambria yn gweithredu fel y corff arweiniol tu fewn i bartneriaeth Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain Cymru mae Popeth Cymraeg a Coleg Cambria wedi cydweithio am ddwy flynedd i sicrhau fod polisiâu Popeth Cymraeg mor agos ag sy'n ymarferol bosib i bolisiâu Coleg Cambria. Mae hynny wedi golygu bod Popeth Cymraeg weithiau wedi mabwysiadu un o bolisiâu Coleg Cambria yn ddigyfnewid, weithiau wedi addasu un o bolisiâu Coleg Cambria fel ei fod yn gweddu i sefyllfa unigryw Popeth Cymraeg ac weithiau wedi ei hepgor gan ei fod yn amherthnasol (e.e. gwasanaethau nas cynigir gan y sefydliad).
- Oherwydd y berthynas gytundebol rhwng Popeth Cymraeg a Coleg Cambria gall Popeth Cymraeg fanteisio ar arbenigedd y coleg a staff y coleg mewn sawl maes er lles dysgwyr Popeth Cymraeg. Cynhelir cyfarfodydd partneriaeth misol i drafod sawl agwedd ar y gwasanaeth Cymraeg l Oedolion yn y Gogledd Ddwyrain ac mae Popeth Cymraeg yn medru troi at swyddogion y coleg ar unrhyw adeg am gymorth pellach ar unrhyw fater.
- Gan fod polisiâu'r ddau gorff wedi'u cysoni mae Popeth Cymraeg yn gweithredu'r polisiâu hynny ei hun yn y lle cyntaf (Datrysiaid Rheng Flaen) ac yn troi at y coleg am gymorth pellach pan neu os cyfyd yr angen. Os gwneir unrhyw newidiadau i unrhyw un o bolisiâu Coleg Cambria yn y dyfodol yn dilyn adolygiad gan y coleg caiff y newidiadau hynny i'r polisiâu eu hymgorffori ym mholisiâu Popeth Cymraeg a'u gwirio gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Popeth Cymraeg.
- Os byth y cyfyd gwrthdaro posib rhwng polisiâu Coleg Cambria a pholisiâu Popeth Cymraeg bydd polisiâu Popeth Cymraeg yn ddarostyngedig i bolisiâu Coleg Cambria.

|                                                     | Addaswyd yn benodol ar gyfer Popeth Cymraeg | Mabwysiadwyd yn llwyr (os yn berthnasol) |
|-----------------------------------------------------|---------------------------------------------|------------------------------------------|
| Polisi Atal                                         | x                                           |                                          |
| Polisi Adborth a Chwynion Gwasanaethau i Gwsmeriaid | x                                           |                                          |
| Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed       | x                                           |                                          |
| Canllaw i Gymorth a Gwasanaethau                    | x                                           |                                          |
| Polisi Arholiadau                                   | x                                           |                                          |
| Polisi Iechyd a Diogelwch                           | x                                           |                                          |
| Polisi Iaith Gymraeg                                |                                             | x                                        |
| Safonau'r Iaith Gymraeg Adroddiad Blynnyddol Drafft |                                             | x                                        |
| Polisi Diogelu Data                                 |                                             | x                                        |
| Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2018         |                                             | Amh.                                     |
| Safonau'r Iaith Gymraeg                             |                                             | x                                        |
| Polisi Disgyblu Dysgwyr                             |                                             | x                                        |
| Polisi A Chanllawiau                                |                                             | x                                        |
| Cronfa Ariannol Wrth Gefn                           |                                             | Amh.                                     |
| Datganiad Deddf Caethwasiaeth Fodern                |                                             | x                                        |
| Polisi Ffioedd Dysgu ac Ad-dalu                     |                                             | x                                        |

|                                                         |  |      |
|---------------------------------------------------------|--|------|
| Polisi Derbyn AB                                        |  | Amh. |
| Datganiad Deddf Caethwasiaeth Fodern                    |  | x    |
| Polisi Ffioedd Dysgu ac Ad-dalu                         |  | x    |
| Polisi Chwythu'r Chwiban                                |  | x    |
| Polisi Plant Sy'n Derbyn Gofal A Rhai Sy'n Gadael Gofal |  | x    |
| Polisi Gwasanaethau Cwnsela Dysgwyr                     |  | x    |
| Datganiad anabledd                                      |  | x    |
| Polisi Cynaliadwyedd                                    |  | x    |
|                                                         |  |      |
| Cod Ymddygiad Myfyrwyr Coleg Cambria                    |  | x    |
| Polisi a Chanllawiau Rhyddid Gwybodaeth                 |  | x    |
| Polisi Cludiant Myfyrwyr                                |  | Amh. |
| Polisi Derbyniadau – Myfyrwyr Rhyngwladol               |  | Amh. |
| POLISI GWASANAETHAU CYNGHORI DYSGWYR                    |  | x    |
| Cod Ymddyglad Cambria                                   |  | x    |
| Datganiad Polisi Cynaliadwyedd                          |  | x    |

Cymeradwy-wyd yr holl bolisiâu uchod yn derfynol ar : Chwefror 6ed 2020



Alun Heddwyn Jones

Cadeirydd Cyfarwyddwyr Popeth Cymraeg



Ioan Talfryn

Prif Weithredwr Popeth Cymraeg